**Adroddiad Blynyddol 2024-25**

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd**

## Rhagair

Dwi'n falch iawn o gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2024-25 ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-2028, sef yr adroddiad cyntaf o'r Cynllun hwn. Hwn hefyd yw'r adroddiad cyntaf i mi gyflwyno ers dod yn Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb.

Dwi'n falch o ddweud fod llawer o'r gwaith hirdymor wedi ei gychwyn yn ystod y flwyddyn hon, gyda fframwaith clir i'w ddilyn drwy weddill cyfnod y Cynllun.

Mae yn bleser gen i ddweud fod Fforwm Cydraddoldeb ar gyfer Staff y Cyngor wedi ei sefydlu ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael achrediad lefel 2 o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, sydd yn ffordd i ni ar weithio tuag at fod yn flaenllaw ym maes cydraddoldeb cyflogaeth.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cydraddoldeb wedi symud ymlaen hefo cynllun gweithredu clir a theitlau ychwanegol am feysydd penodol wedi eu cynnwys. Rydw'i hefyd yn falch o ddweud fod y templed asesiad effaith cydraddoldeb newydd mewn lle ac yn cael ei ddefnyddio gan staff, gydag adnoddau ychwanegol i roi cymorth iddynt ei gwblhau'n effeithiol.

Yn ychwanegol i'r amcanion yma, mae'r Cynllun yn edrych ar wasanaethau gwahanol, gan gynnwys amgueddfeydd. Mae'n dda gen i allu dweud fod yna lawer o waith wedi ei wneud gan y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio dulliau amgen i sicrhau profiad gwell i gyhoedd Gwynedd.

Rwyf yn edrych ymlaen nawr i weld y cynnydd yn parhau dros weddill y cyfnod Cynllun Cydraddoldeb Strategol, hyd at 2028.

**Llio Elenid Owen**
**Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol**

## Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28, er mwyn parhau gyda'r gwaith o sicrhau tegwch i bawb. Mae hyn yn bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cynllun yn edrych ar degwch o ran 9 o nodweddion gwarchodedig sef:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil
  (Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol ers 2021. Y disgwyl yw i gyrff cyhoeddus ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Cynllun yma yn disgrifio'r gwaith fydd o flaenoriaeth i'r Cyngor ym maes cydraddoldeb am y pedair blynedd dan sylw, sydd wedi ei rannu i bum amcan sef:

- **Amcan 1: Cyflogaeth: Gweithredu i wella cydraddoldeb y gweithle**
- **Amcan 2: Gwybodaeth - Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb**
- **Amcan 3: Systemau: Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein trefniadau mewnol**
- **Amcan 4: Gwasanaethau: Sicrhau cydraddoldeb o fewn ein gwaith bob dydd**

- **Amcan 5: Ysgolion: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg**

Mae un o'r amcanion yna, sef Amcan 1, ar gyflogaeth ac yn cynnwys pwyntiau gweithredu ar y bwlch tâl, fel mae'r ddyletswydd benodol yn gofyn i ni ei wneud.

Mae'r ddyletswydd benodol hefyd yn gofyn i ni gael amcanion ar bob nodwedd warchodedig. Ein penderfyniad ni yw gwneud amcanion thematig, ac mae pob amcan yn gweithio tuag at gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn atal dyblygu ac yn ei gwneud yn haws i adnabod ffactorau sy'n dod o groesdoriadaeth (sef y rhwystrau ychwanegol mae pobl hefo mwy nag un nodwedd penodol yn ei wynebu).

Yn yr adroddiad yma rydym yn amlinellu, fesul amcan, beth yw'r pwyntiau gweithredu rydym wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf, a be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n bwriadu ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

## Amcan 1 Cyflogaeth - Gweithredu i wella cydraddoldeb y gweithle

**Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn**

- Sefydlu fforwm / fforymau staff er mwyn trafod materion cydraddoldeb, fel bod ein gweithwyr yn gallu cyfrannu i'r maes o fewn y Cyngor.
- Gosod y nod o weithio tuag at fod yn gyflogwr blaenllaw yn y maes hwn, gan gynnwys rhoi sylw i'r meysydd canlynol:
    - Peidio rhoi gofynion sydd ddim yn angenrheidiol yn ein swydd ddisgrifiadau wrth hysbysebu swyddi er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosib i ymgeisio.
    - Sut a ble rydym yn hysbysebu swyddi.
    - Ein delwedd fel cyflogwr yn ein cymunedau – bod yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl o bob rhan o gymdeithas i weithio i Gyngor Gwynedd.
- Parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r maes hwn yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant, niwroamrywiaeth, aflonyddu rhywiol, parch ac urddas yn y gweithle.
- Cynnal archwiliad bwlch tâl yn flynyddol, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch. Cyrraedd sefyllfa lle rydym yn gallu cynnal archwiliad bwlch tâl ar sail anabledd a hil hefyd.

**Beth rydym ni wedi ei wneud**

Mae Amcan 1 i gyd yn ymwneud â gwella cydraddoldeb yn y gweithle, ar gyfer budd ein staff ac ymgeiswyr am swydd, trwy sicrhau ein bod yn gyflogwyr cyfle cyfartal. Un o'n

blaenoriaethau ar gyfer sicrhau llwyddiant yr amcan oedd dod i ddeall persbectif staff a derbyn eu hadborth mewn perthynas â materion cydraddoldeb, drwy sefydlu Fforwm Cydraddoldeb Staff. Llwyddwyd i sefydlu'r fforwm drwy wahodd gwirfoddolwyr i ymrwymo i fod yn aelodau o'r Grŵp. Mae cyfarfodydd wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn weithredol nesaf, sef 2025-26, ac rydym yn edrych i'r aelodau gyfrannu eu syniadau a'u barn ar faterion cydraddoldeb mewn cyflogaeth.

Rydym hefyd wedi dechrau ar weithio tuag at fod yn gyflogwr blaenllaw gan roi sylw penodol at ein delwedd fel cyflogwr yn ein cymunedau, gan fod yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl o bob rhan o gymdeithas i weithio i Gyngor Gwynedd. Fel dull o fesur pa fath o gyflogwr ydym ni mewn perthynas ag anabledd, roeddem wedi ymrwymo i Gyrraedd Achrediad Lefel 2 o'r safon Hyderus o ran Anabledd, ar ôl bod ar lefel 1 yr Achrediad yn y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd yr achrediad lefel 2 fel Cyngor, sydd yn parhau tan 2028, gyda uchelgais i gyrraedd lefel 3 erbyn diwedd y Cynllun.

Roedd parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff mewn meysydd cydraddoldeb yn y gweithle hefyd yn flaenoriaeth am y flwyddyn hon. Un o'r meysydd penodol roeddem wedi adnabod oedd niwroamrywiaeth. I sicrhau fod gan staff ddealltwriaeth o'r maes, mae rhaglen hyfforddi yn ei le, sy'n edrych yn benodol ar awtistiaeth. Mae deg sesiwn wedi ei drefnu ar gyfer 2025, gyda thri ohonynt yn ystod y flwyddyn weithredu hon. Mae ein Haelodau Etholedig, hefyd, wedi cael y siawns i wneud cwrs 'Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth'. Mae'r cyngor hefyd wedi ymateb i ddeddfwriaeth Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle. Daeth y ddeddfwriaeth i rym ddiwedd Hydref 2024 ac felly mae gwaith wedi cychwyn i gynhyrchu hyfforddiant penodol yn y maes. Bydd y gwaith yma yn parhau i mewn i'r flwyddyn weithredu nesaf.

Mae hefyd yn ddyletswydd benodol i'r Cyngor edrych yn flynyddol ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau, gan gynnal archwiliad ac ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i geisio cau'r bwlch. Rydym wedi sefydlu trefniadau a systemau sydd yn ein galluogi i gynnal archwiliad yn amserol bob blwyddyn, ar sail rhyw yn y lle cyntaf. Mae'r Uned Gyflogau yn gweithio ar y data craidd er mwyn adrodd ffigwr bwlch tâl ar sail rhyw ar gyfer Mawrth 2025.

**Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?**

Rydym yn edrych ar ein cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb yr ofynion penodol.

Yn gyntaf, credwn fod ymrwymo i gyrraedd Achrediad Lefel 2 o'r safon Hyderus o ran Anabledd yn ein helpu i atal gwahaniaethu yn benodol ar sail anabledd ac yn gadael i ni ystyried ymarfer da gan fesur ym mha ffordd rydym yn gyflogwyr blaenllaw. Mae'r cam yma hefyd yn hanfodol i ni allu sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl anabl yn y gweithle, gan sicrhau fod pobl sy'n cael eu tan-gynrychioli yn cael eu annog i gymryd rhan yn mhob elfen yn y gweithle.

Yr ail beth sydd yn atgyfnerthu atal gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon yw rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff, mewn meysydd fel niwroamrywiaeth ac aflonyddu rhywiol, fel bod pawb yn cael eu trin gyda pharch ac urddas yn y gweithle. Mae hyfforddiant hefyd yn gyfle i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig yn gyffredin a'r rheini sydd heb y nodwedd hynny, ac i godi ymwybyddiaeth staff am y nodweddion gwarchodedig i annog perthynas  dda.

Y trydydd peth sydd yn ateb yr angen ydi cynnal archwiliad bwlch tâl yn flynyddol, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch. Mae hyn yn gadael i ni edrych ar unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol systematig ac mae lleihau'r bwlch yn drafodaeth barhaus trwy gydol y cynllun strategol yn ehangach. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn gweithio tuag at yr amcan o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig berthnasol , sef rhyw, ac yn arbennig yn ystyried lleihau'r bwlch anfantais economaidd gymdeithasol. Trwy fonitro'r bwlch tal mae'n sicrhau ein bod ni yn gallu adnabod a cheisio ymateb unrhyw anfantais economaidd gymdeithasol.

Yn olaf, roedd creu a sefydlu fforwm cydraddoldeb ar gyfer staff yn elfen bwysig i ymateb i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig berthnasol yn gyffredin a'r rheini sydd heb nodwedd o'r fath, gan eu hannog i gymryd rhan ym mywyd cyhoeddus y gweithle. Mae dod a phobl sydd yn rhannu nodweddion amrywiol at ei gilydd yn creu ac yn cryfhau eu cysylltiadau ac yn rhoi'r cyfle cyfartal i adrodd yn ôl at y Cyngor ar faterion cydraddoldeb a meithrin perthynas dda.

**Be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n disgwyl ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?**

Rydym wedi dechrau sefydlu camau lle y gall staff gymryd rhan a chynnig syniadau ar sut y gall Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wella pethau ar gyfer pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb. Rydym hefyd yn sicrhau eu bod yn deall anghenion eraill drwy roi hyfforddiant ar nodweddion penodol. Rydym yn cymryd camau ymarferol i ddatblygu ein delwedd fel cyflogwr i bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb, ac yn anelu, yn y tymor hir, i fod yn flaenllaw yn y maes. Byddwn hefyd yn sicrhau fod gan ein rheolwyr a staff fynediad at wybodaeth i'w cynorthwyo wrth ymdrin â materion cyflogaeth sydd yn gysylltiedig â'r maes.

## Amcan 2 Gwybodaeth - Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb

**Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn**

- Creu trefn haws a mwy hygyrch o gadw ein data cydraddoldeb.  Y bwriad yw ei wneud yn haws i'w ddefnyddio wrth newid polisïau a chreu cynlluniau.
- Gwella a diweddaru'r data sydd gennym ar Wynedd yn y ddogfen Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru, gan lenwi unrhyw fylchau os yw hynny yn bosib.

Beth rydym ni wedi ei wneud

Mae Amcan 2 yn edrych yn benodol ar ddata a sut fedrwn fel Cyngor wella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb. Mae Data Cymru erbyn hyn wedi datblygu dashfwrdd sy’n dod â thipyn o’r data craidd yn y maes at ei gilydd, ar lefel sirol. Ar ôl i'r dashfwrdd gael ei ryddhau rydym ni wedi adolygu'r cynnwys, ac wedi penderfynu creu Dashfwrdd ar Wynedd yn benodol.  Fel man cychwyn bydd yn cynnwys yr wybodaeth o Ddogfen Ddata Gogledd Cymru.  Felly yn ystod y flwyddyn 2024-25 bu'r swyddogion data drwy'r broses o benderfynu pa wybodaeth ychwanegol sydd ei angen, gan ymchwilio beth sydd ar gael a sut i sicrhau y bydd yr wybodaeth sy’n cael ei rannu ar ffurf hawdd a hygyrch. Nid oedd yn bosib cwblhau’r gwaith o fewn cyfnod y flwyddyn gan nad oedd Dashfwrdd Data Cymru ar gael tan fis Medi.

**Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?**

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol  a nodwyd ar ddechrau’r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae’n ymateb yr ofynion penodol.

Mae cael data cywir yn cyd fynd hefo tair elfen y ddyletswydd gan fod y data yn cael ei ddefnyddio i lunio cynlluniau a pholisïau cydraddoldeb y dyfodol, gan sicrhau asesiadau effaith cydraddoldeb effeithiol. Drwy adolygu a gwella ansawdd data cydraddoldeb, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i nodi a mynd i'r afael â meysydd lle gallai pobl â nodweddion gwarchodedig fod yn profi gwahaniaethu neu anfantais. Mae'r penderfyniad i greu ein dashfwrdd penodol i Wynedd ein hunain yn helpu i sicrhau bod polisïau ac arferion yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth glir o'r rhwystrau mae cymunedau lleol yn eu hwynebu. Drwy nodi a llenwi bylchau data, gall y Cyngor ddylunio gwasanaethau sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol i'r rhai â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau gwneud penderfyniadau cynhwysol ac gweithio ar ymateb i unrhyw anfantais economaidd gymdeithasol a gall ymddangos. Mae cael mynediad hawdd at ddata cywir yn ein galluogi ni i adnabod a gweithredu ar unrhyw fwlch economaidd gymdeithasol.

**Be ydi’r gwahaniaeth rydym ni’n bwriadu ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?**

Rydym ni’n bwriadu gwella’r data sydd gennym er mwyn ei ddefnyddio wrth greu neu newid polisi neu ffordd o weithio, a rhoi gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd.  Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd gennym ni fewnbwn addas gan bobl â nodweddion cydraddoldeb, heb eu llethu drwy eu holi’n aml.  Mae’n bwysig bod â throsolwg a dealltwriaeth glir o’r prif broblemau sy’n wynebu pobl â nodwedd warchodedig wahanol.

## Amcan 3:  Systemau:  Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein trefniadau mewnol

**Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn**

- Parhau gyda’r fframwaith hyfforddiant gan sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang, i roi’r adnoddau a’r hyder i’n staff ar bob lefel o fewn y Cyngor i barchu amrywiaeth a delio ag ystod o anghenion yn addas.
- Codi ymwybyddiaeth staff yn y Cyngor o’r drefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau safon y gwaith.
- Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch drwy greu cynllun gweithredu a gweithredu arno. Bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at gael gwared ar y defnydd o ddogfennau PDF.
- Parhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**Beth rydym ni wedi ei wneud**

Mae amcan 3 yn edrych ar gydraddoldeb o fewn systemau mewnol y Cyngor a sut allwn ni barhau i fod yn fudiad wrth-wahaniaethol. Mae’r is gam gweithredu cyntaf yn edrych ar systemau hyfforddiant mewnol ar gyfer ein staff. Mae dashfwrdd Power Bi wedi ei greu, a bellach yn fyw, sy’n rhoi darlun byw i Benaethiaid Adran o’r nifer o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol, gan gynnwys yr hyfforddiant cydraddoldeb. Bydd gwaith yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun i sicrhau fod aelodau staff yn gwneud yr hyfforddiant.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith hefyd wedi ei wneud i adolygu’r hyfforddiant mae rheolwyr yn ei dderbyn ym maes Cydraddoldeb. Nid oes hyfforddiant penodol ar gyfer rheolwyr wedi ei gwblhau hyd yn hyn. Fodd bynnag, i gefnogi rheolwyr ymhellach, mae gwybodaeth ac adnoddau ar gael iddynt ar y Hwb Arwain a Rheoli, a rydym wedi dechrau ar y gwaith o baratoi hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb i reolwyr (yn electroneg). Mi fydd gweddill cyfnod y cynllun yn edrych ar ddatblygu cyfres o hyfforddiant cydraddoldeb iddynt.

Rydym ni hefyd yn adolygu cynnwys y rhaglen hyfforddiant yn rheolaidd i gynnwys cyrsiau ar amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb. Mae'r gwaith hwn yn barhaus er mwyn gweithio tuag at fod yn awdurdod arweiniol yn y maes yma. Yn ystod y flwyddyn weithredol hon, mae’r Cyngor wedi adnabod meysydd blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru, sef gwrth hiliaeth, LHDTC+ ac anabledd, ac mae cynllun wedi ei baratoi i drefnu sesiynau yn y meysydd craidd yma. Erbyn hyn mae peilot hyfforddiant LGBTQ+ wedi cael ei gynnal gan Adferiad Cymru, ac mae gwaith yn parhau i gasglu a dadansoddi adborth staff. Mae Panel Dysgu a Datblygu wedi ei sefydlu i dderbyn ceisiadau am unrhyw gyrsiau hyfforddi pellach sydd eu hangen yn y maes yma a allai gael eu hychwanegu i’r Fframwaith Dysgu a Datblygu.

Mae’r Cyngor hefyd yn parhau â’r sesiynau datblygol ar Ferched mewn Arweinyddiaeth hefo grŵp arall yn cychwyn ym Medi 2024.

Mae’r ail bwynt gweithredu rydan yn edrych arno yn y flwyddyn hon yn benodol ar ein trefn asesu effaith cydraddoldeb gan greu trefn newydd, eu hyrwyddo a sicrhau cefnogaeth ar gyfer staff i gwblhau’r asesiadau’n effeithiol. Erbyn hyn mae fersiwn electronig o’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau gan y gwasanaeth TG, ac mae gwaith o baratoi

hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio wedi ei gychwyn, gyda chynllun clir yn ei le.  Yn ystod y flwyddyn, bu ir swyddogion cydraddoldeb ddechrau hyrwyddo'r asesiad effaith electronig ar gyfer rheolwyr a staff gan godi ymwybyddiaeth hefo clip hyfforddiant sydd yn egluro pwysigrwydd yr asesiad ac yn eu hannog i'w ddefnyddio. Yn seiliedig ar ymateb ac adborth gan staff, mae'r templed ei hun wedi ei addasu lle bo angen, a bydd diweddariadau pellach yn parhau drwy gyfnod y cynllun er mwyn sicrhau fod y templed yn hygyrch ar yn ddefnyddiol ar gyfer staff, er mwyn sicrhau asesiadau effeithiol.

Wrth barhau i edrych ar ein systemau mewnol, mae'r pwynt gweithredu nesaf yn edrych ar hygyrchedd a sut i wneud ein gwefan yn fwy hygyrch dros gyfnod y cynllun.

Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu sefydlu ac wedi cael eu cynnal yn fisol gyda'r adran TG i adnabod unrhyw faterion hygyrchedd newydd sy'n codi. Mewn ymateb i'r trafodaethau hyn, mae cynllun gweithredu byw wedi'i greu i gofnodi materion a godwyd, gan sicrhau bod y tasgau'n cael eu rhannu yn briodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Swyddog Hygyrchedd dros dro wedi'i benodi ar gytundeb 12 mis ac wedi dechrau yn y rôl ers Ionawr 2025. Yn dilyn hyn bydd gwaith yn cychwyn ar ail-ddylunio tudalen gartref y wefan er mwyn cael gwared ar nifer o'r problemau hygyrchedd sydd wedi'u hadnabod ac i edrych yn fwy penodol ar hygyrchedd dogfennau PDFs, yn y flwyddyn weithredol nesaf.

Gan edrych ar ein trefniadau mewnol, mae'r pwynt gweithredu olaf yn edrych ar ein cynllun Rhuban Gwyn sydd eisoes wedi bod yn rhan o gynlluniau strategol y cyngor ac wedi trosglwyddo o'r cynllun Cydraddoldeb 2020-24 er mwyn i ni barhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Anogir staff i gwblhau hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau diogelu, gyda cwblhau'r hyfforddiant mandadol hwn yn ofyniad. Caiff yr hyfforddiant ei hyrwyddo fel rhan o waith hyrwyddo cyrsiau mandadol gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu ac mae hyn yn waith parhaol. Mae polisi a chanllawiau caffael y Cyngor wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i gynnwys ystyriaethau diogelu, ac fe fydd elfennau diogelu a cham-drin domestig yn cael eu cynnwys. Mae'r cwestiynau cyn-gymhwyso o fewn proses caffael y Cyngor wedi cael ei gyhoeddi a byddwn yn adolygu'r gyfres o gwestiynau i sicrhau bod y rhain yn cwrdd â'r gofyn i roi sylw i ddiogelu a cham drin domestig.

Mae codi ymwybyddiaeth a chymryd rhan yn ymgyrch Rhuban Gwyn hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Ym Mis Tachwedd 2024, cefnogwyd Diwrnod Rhuban Gwyn drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith staff drwy amryw o ffyrdd, hedfan baner gwyn tu allan i siambr y Cyngor ac Aelodau Etholedig yn gwisgo rhubannau gwyn. Hefyd cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn nodi fod y Cyngor yn cymryd trais yn erbyn merched o ddifri ac yn defnyddio ei safle i ddylanwadu a gwneud gwahaniaeth yn fewnol ac yn allanol.  Rydym yn ymchwilio hefyd i ddatblygu taflenni gwybodaeth diogelu a cham-drin domestig mewn ieithoedd eraill, er mwyn bod yn hygyrch ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?**

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae Amcan 3 yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar wella systemau mewnol i sicrhau ei fod yn gweithredu fel sefydliad gwrth-wahaniaethol. Trwy barhau â fframwaith hyfforddiant cynhwysfawr sy'n cynnwys amrywiaeth o nodweddion a meysydd cydraddoldeb, mae'r cyngor yn rhoi'r adnoddau a'r hyder i staff ar bob lefel, gan gynnwys rheolwyr, i allu ymateb i anghenion amrywiol cydraddoldeb. Mae hyn yn cryfhau'r ymdrech i atal gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, gan godi ymwybyddiaeth a feithrin cysylltiadau da. Mae diweddaru'r templed a hyrwyddo'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, yn enwedig i reolwyr, hefyd yn ateb y gofynion, gan sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gallu gwneud penderfyniadau cynhwysol, sydd yn edrych ar y tair elfen yma o'r ddeddf yn benodol. Mae'r templed asesu effaith yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ystyried unrhyw effaith anfantais economaidd yn ogystal ar nodweddion gwarchodedig ac felly yn diwallu'r angen i gydymffurfio â dyletswydd 2021, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau strategol. Yn ogystal, mae hyrwyddo ymgyrchoedd fel Diwrnod Rhuban Gwyn a pharhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, yn meithrin perthnasau da, gan greu diwylliant rhagweithiol.

**Be ydi'r gwahaniaeth y byddwn ni'n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?**

Ein bwriad yma yw sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn ystyried pob nodwedd cydraddoldeb a bod ein staff yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn y maes. Byddwn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o hawliau ac anghenion pobl ag amrywiol nodweddion drwy greu amrywiaeth o deitlau hyfforddiant. Yn ogystal, bod ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb yn cael y lle mae'n haeddu wrth greu a newid polisïau a ffyrdd o weithio trwy ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb. Byddwn yn sicrhau fod pobl yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen drwy wneud ein gwefan yn haws i'w ddefnyddio. Bydd hyrwyddo'r cynllun Rhuban Gwyn hefyd yn rhoi cymorth i staff ddeall eu cyfrifoldeb yn y maes.

## Amcan 4 - Gwasanaethau: Sicrhau cydraddoldeb o fewn ein gwaith bob dydd

**Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn**

- Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cefnogi cymunedau Gwynedd:

- Drwy ddarparu rhaglenni cynhwysol ar gyfer ein cymunedau amrywiol, boed yn arddangosfa, gweithgaredd, digwyddiadau, cyfleoedd hyrwyddo, prosiect a grantiau
- Sicrhau fod y naratif yn ein hamgueddfeydd yn addas (gwrth-hiliol ayb) a bod straeon pobl a nodweddion penodol yn cael eu clywed
- Gweithio gyda chymunedau pobl â nodweddion cydraddoldeb i gael gwared ar rwystrau i ddefnyddio ein hamgueddfeydd ac orielau

- Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn:
  - Cyflawni gweithgareddau'r Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd sydd gyda'r nod o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".
  - Sefydlu Siop Un Stop a fydd yn gyfundrefn newydd sydd yn gallu ymateb i anghenion trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog.
- Bydd y Gwasanaeth Trafnidiaeth yn
  - Parhau i weithio i sicrhau fod trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch.

**Beth rydym ni wedi ei wneud.**

O dan Amcan 4, rydym yn edrych ar dri gwasanaeth / adran penodol i sicrhau cydraddoldeb o fewn gwaith bob dydd. Y gwasanaeth cyntaf yw Amgueddfeydd. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi bod yn asesu pa mor hygyrch yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gyda'r nod o greu cynllun gweithredu i gael gwared ar unrhyw rhwystrau. Mae hyn wedi rhoi sylw i faterion gweithredol sydd wedi codi mewn holiaduron cydraddoldeb cyffredinol diweddar ynghyd ag unrhyw faterion sydd wedi'u codi drwy gwynion neu adborth arall.

Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn ogystal ag edrych ar hygyrchedd y gwasanaeth, wedi adnabod darparu rhaglenni cynhwysol ar gyfer cymunedau amrywiol fel un o'i blaenoriaethau, gan gynllunio rhaglenni gydag amcanion cydraddoldeb yn rhan ohonynt. Rhwng 2024 a 2025 edrychwyd ar y rhaglenni i allu adrodd ar y niferoedd o gyfleoedd ac ar yr adborth ohonynt gan sicrhau bod y rhaglenni yn gynhwysol, ac wedyn adnabod gwelliannau. Derbyniodd Storiel grant a ddefnyddiwyd i gefnogi artist gydag arddangosfa fechan yn y "Cabinet Rhyfeddodau" ym Medi/Hydref a gweithdy yn archwilio treftadaeth Garibïaidd trwy lens artistig. Mae aelodau staff Storiel wedi derbyn mentora drwy gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer amgueddfeydd i'r Cynllun Gwrth Hiliol a staff Amgueddfa Lloyd George trwy AIM (Association of Independant Museums).

Blaenoriaeth arall gan y Gwasanaeth oedd sicrhau fod y naratif yn ein hamgueddfeydd yn addas a bod straeon pobl â nodweddion penodol yn cael eu clywed. Roedd pwyslais ar sicrhau bod cynllunio arddangosfeydd newydd a diweddariadau eraill yn cael eu gwneud mewn modd cynhwysol. Gwnaed cais grant SPF llwyddiannus i ail ddehongli Amgueddfa Lloyd George sydd yn cynnwys ymgysylltu, gyda'r gwaith wedi parhau gyda chyllid cyfatebol tan Fawrth 2025. Yn dilyn hyn mae cais wedi ei gyflwyno ar gyfer 2025/26 i barhau gyda gwaith ymgysylltu yn Amgueddfa Lloyd George a Storiel. Mae grant Llywodraeth Cymru

mewn lle i gefnogi Storiel i edrych ar ddatblygu cynulleidfa rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025. Bydd yr wybodaeth yma yn bwydo mewn i gynlluniau'r dyfodol. Bydd y gwasanaeth yn edrych i barhau'r gwaith yma gan gasglu adborth gan y gymuned i allu cynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Bydd adborth drwy ymgysylltu yn cynnwys boddhad cwsmer, ymateb i gwynion ac unrhyw gyfrwng arall yr adnabyddir.

Yr ail wasanaeth / adran sydd yn rhan o'r amcan hon, yw'r Adran Tai ac Eiddo.  Maent yn gweithio ar y Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd sydd yn cyd-fynd gyda chyfnod y Cynllun Cydraddoldeb. Yn ystod y flwyddyn mae'r Adran wedi ymgynghori gyda chymunedau er mwyn adnabod anghenion tai trigolion fel rhan o arolwg corfforaethol Ardal Ni, lle derbyniwyd 2,220 o ymatebion. Roedd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal pobl Gwynedd rhag byw mewn lle sydd yn cwrdd â'u hanghenion. Yn dilyn yr ymgynghoriad mae'r gwasanaeth wrthi yn uchafu'r nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu datblygu ar y cyd â'n Partneriaid Tai.  Mae 278 uned wedi'i adeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol, gyda 262 arall ar y gweill, gyda'r Cyngor yn anelu i sicrhau fod tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd ac yn cynnig manteision effeithlonrwydd ynni i breswylwyr. Yn ystod y cyfnod mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddosbarthu 4,102 o dalebau ynni sydd â gwerth £167,820.  Fel canlyniad, mae 278 eiddo wedi gweld cynnydd yn eu tystysgrif perfformiad ynni trwy'r cynllun ECO4 gyda 600 arall wedi eu cymeradwyo.

Hefyd fel rhan o'r gwaith sefydlwyd Siop un Stop ar gyfer hwyluso'r broses o gyflwyno ceisiadau ar gyfer Tai Cymdeithasol ac i wella mynediad at y gwasanaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn galluogi swyddogion y Cyngor i asesu anghenion y cwsmer gan gyfeirio un ymholiad yn ôl yr angen. Mae gwaith ymchwil a sesiynau ymgysylltu wedi'u gwneud gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn adnabod yr angen a chyfleoedd i wella'r trefniadau presennol. Mae trefn newydd ar gyfer symleiddio'r broses yn ymwneud â'r Grant Cymorth Tai, hefo trefn un pwynt cyswllt/SPOA wedi ei sefydlu, ac mae dros 691 o drigolion Gwynedd eisoes wedi elwa wrth dderbyn gwybodaeth ac arweiniad gyda'u hanghenion cymorth tai perthnasol.

Y trydydd gwasanaeth sydd yn rhan o'r amcan hwn yw'r Gwasanaeth Trafnidiaeth. Mae'n parhau i weithio i sicrhau fod trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch, drwy gasglu gwybodaeth am anghenion gwahanol grwpiau er mwyn deall sut i gyfarch anghenion unigol. Yn ystod y flwyddyn mae swyddog o'r adran wedi ymweld â'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb sydd gan y Cyngor, i glywed eu barn a dylunio ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn hyn, mae gwaith wedi cychwyn ar weithredu ar yr adborth drwy addasu amserlenni bws fel eu bod yn fwy addas ar gyfer pobl hŷn. Mae addasiadau rhesymol hefyd yn cael eu gwneud fel printio amserlen bws ar bapur A3 ar gyfer unrhyw un sydd eu hangen.

**Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?**

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol  a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae’r Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi gweithio i nodi, deall a chael gwared â rhwystrau drwy asesu hygyrchedd y gwasanaeth, gan ystyried adborth drwy holiaduron, cwynion ac unrhyw wybodaeth bellach. Drwy wneud hyn mae’r Cyngor yn cyfrannu at ddileu gwahaniaethu, drwy nodi’r rhwystrau a’r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal gan greu awyrgylch gynhwysol sydd yn hygyrch i drigolion Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo cyfleodd cyfartal a meithrin perthnasau da drwy ddarparu rhaglenni cynhwysfawr ar gyfer cymunedau amrywiol, er enghraifft arddangosfa Caribïaidd Storiel, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein cymuned. I ychwanegu at y tair nod, mae’r gwasanaeth wedi gweithio i sicrhau bod y naratif sydd yn cael ei gyflwyno yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Trwy gydol y flwyddyn mae’r gwaith cymunedol yma yn rhoi ffocws penodol i’r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy hyrwyddo prosiectau cymunedol a lles y gymuned, gyda mynediad at nifer o’r gweithgareddau yn rhad ac am ddim.

Mae’r Gwasanaeth Tai yn cyfrannu at ddileu gwahaniaethu drwy ymgynghori â chymunedau i adnabod anghenion o fewn y maes, i sicrhau nad oes neb yn profi gwahaniaethu y anuniongyrchol. Mae’r gwaith o ddileu gwahaniaethu a cheisio hyrwyddo cyfleodd cyfatal yn parhau drwy gynyddu’r niferoedd o dai fforddiadwy a blaenoriaethu cefnogaeth cost ynni. Mae’r Siop Un Stop hefyd yn cyd-fynd gyda’r tair nod drwy wella trefniadau'r system fewnol i fod yn fwy hygyrch. Mae’r gwaith yma i gyd yn cyfrannu at lleihau’r bwlch economaidd gymdeithasol.

Mae’r Gwasanaeth Trafnidiaeth hefyd, yn debyg i’r Gwasanaethau eraill, yn ceisio dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy gasglu gwybodaeth am anghenion grwpiau gwahanol ac yna gweithredu i wneud unrhyw addasiadau sydd ei angen ar y gwasanaeth yn seiliedig ar yr adborth. Mae’r weithred o gasglu barn gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn cyfrannu at feithrin perthynas dda gan ddod a grwpiau gwahanol at ei gilydd gyda staff y Cyngor i allu trafod y materion amrywiol. Yn ogystal â hyn, mae’r Grŵp Craidd Cydraddoldeb wedi gallu chynnig a thrafod sawl pwynt ynglŷn ac anfantais economaidd gymdeithasol trwy gydol y flwyddyn sydd hefyd yn ymateb i ofynion 2021.

**Be ydi’r gwahaniaeth ryda ni’n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?**

Byddwn yn edrych ar ba mor hygyrch yw ein gwasanaethau i bawb ac yn gweithio i leihau unrhyw rwystrau. Yn ogystal bydd ein Gwasanaeth Amgueddfeydd a’r Celfyddydau yn adeiladau ar hyn sydd yn ei le yn barod i sicrhau y gall cymunedau gyfrannu eu lleisiau i’r naratif yn ein hamgueddfeydd, i gael mwy o gyfleoedd, llai o rwystrau, cyfrannu mwy i’w diwylliant a chael mwynhad, dysgu a gwella eu hiechyd a llesiant. Mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw tai a thrafnidiaeth ar gyfer unigolion gyda nodweddion cydraddoldeb penodol a’r rhai sy’n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae gennym ni bwyntiau gweithredu yn y meysydd yma hefyd er mwyn gwella safonau byw pobl.

## Amcan 5: Ysgolion: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg

**Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn**

- Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio a throseddau casineb i allu adnabod anghenion hyfforddiant i staff ysgolion ag i gydweithio gyda swyddogion lles, Gwasanaeth Ieuenctid, yr Heddlu ac asiantaethau.
- Adnabod y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu'r ysgol i blant Gwynedd gan leihau costau a rhwystrau at addysg a gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cefnogi dysgwyr, beth bynnag eu cefndir a nodweddion gwarchodedig.
- Adnabod, monitro a gweithredu i wella presenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion megis; plant sy'n gymwys am ginio am ddim, plant mewn gofal, absenoldebau parhaus, anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau amrywiol eraill fel mae'r data yn ei amlygu.
- Sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a'i anghenion.

**Beth rydym ni wedi ei wneud**

Mae Amcan 5 yn edrych yn benodol ar addysg yng Gwynedd a sut i wella cydraddoldeb yn y maes. Y pwynt gweithredu cyntaf yw casglu a dadansoddi data i allu deall anghenion amrywiol ddisgyblion. I gasglu'r data perthnasol sefydlwyd trefn newydd i gasglu data am y categorïau gwahanol o fwlio sy'n cael eu cofnodi yn yr ysgol. Erbyn hyn mae 90% o ysgolion Gwynedd yn defnyddio system electroneg i gofnodi achosion o fwlio. Mae'r system newydd yn golygu y gellir dadansoddi'r data ac ymateb iddo yn flynyddol, gan ddylanwadu ar gynllun hyfforddiant i'r ysgolion am y flwyddyn ganlynol. Yn dilyn y broses o gasglu gwybodaeth, ceir cydweithio gyda swyddogion/ asiantaethau er mwyn ymateb i'r anghenion mae'r data yn ei amlygu drwy drefnu a chynnal hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion, i wella ymwybyddiaeth staff ar sut i ymateb a chefnogi mewn achosion o fwlio. Mae adnoddau wedi eu rhannu gydag ysgolion, ag bydd hyn yn parhau yn flynyddol.

Yr ail elfen o'r amcan ydi adnabod y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu'r ysgol i blant Gwynedd er mwyn lleihau costau a rhwystrau a chael mynediad at addysg, gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cefnogi dysgwyr. I ddeall y gwir gost ariannol ac emosiynol crëwyd holiaduron i gasglu gwybodaeth am y costau cudd sydd i ddisgyblion fynychu'r ysgol er mwyn i'r ysgolion gael ystyried addasiadau posib y gellir eu gweithredu i liniaru'r gost. Mae camau gweithredu wedi eu sefydlu ar gyfer ysgolion yn dilyn y dadansoddiad drwy lunio Siarter 'Y Gost o Fynychu'r Ysgol' er mwyn amlygu'r camau mae ysgolion angen eu cymryd i fod yn ysgolion cost gyfeillgar. Mae Siarter drafft wedi ei lunio a bydd yn cael ei rannu yn y flwyddyn weithredol nesaf.

Yn dilyn yr pwynt gweithredu cyntaf, mae gwaith o weithredu ar y data sydd gan ysgolion wedi cychwyn gyda'r amcan i adnabod, monitro a gweithredu i wella presenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, plant sy'n gymwys am ginio

am ddim, plant mewn gofal, absenoldebau parhaus, anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau amrywiol eraill. Sefydlwyd trefn o ddadansoddi data presenoldeb ysgolion Gwynedd yn gyson i allu adnabod patrymau a heriau o'r data presenoldeb. Mae'r Swyddogion Lles yn cefnogi ysgolion yn unol â chanfyddiadau'r data  presenoldeb, ar lefelau unigol a grwpiau amrywiol, a bydd y gwaith yma yn barhaus trwy gyfnod y cynllun.

Yr amcan olaf oedd edrych i sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig a'u anghenion. Yn ystod 2024 mi ddechreuodd y gwaith o lunio swydd ddisgrifiad, hysbysebu a phenodi Cydlynydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn cydlynu'r gwaith o dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc ysgolion, colegau a mudiadau. Yn dilyn y penodiad, mae'r Cydlynydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi llunio rhaglen waith am y flwyddyn addysgol er mwyn sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, gyda'r gwaith wedi cychwyn ym mis Tachwedd 2024.

**Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?**

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae adnabod y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu'r ysgol i blant a chymryd camau i leihau'r costau a rhwystrau ddysgwyr, beth bynnag eu cefndir, yn gam tuag at hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o fewn addysg ac yn gallu atal gwahaniaethu, drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth maen nhw eu hangen. Mae'r pwynt gweithredu yma hefyd yn arbennig yn ystyried anfantais economaidd gymdeithasol gan edrych ar rhai or rhwystrau ariannol a chymunedol. Mae ein hamcan ar adnabod, monitro a gweithredu i wella presenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion amrywiol (e.e plant sy'n gymwys am ginio am ddim, plant mewn gofal, absenoldebau parhaus, anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau amrywiol eraill fel mae'r data yn ei amlygu) hefyd yn gallu sicrhau fod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal ym mysg eu cyfoedion, ac atal unrhyw wahaniaethu gan hybu meithrin perthnasu da rhwng disgyblion o gefndiroedd amrywiol. Mae parhau i sefydlu trefniadau i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, yn mynd ymhellach i sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle cyfatal i allu rhoi eu barn ar drefniadau ysgolion ac adnabod eu rhwystrau gwahanol. Ar gyfer mynd ymhellach â'r nod o feithrin cysylltiadau da, mae'r cynllun yn edrych ar gydweithio gyda niferoedd o swyddogion ac adrannau eraill, fel swyddogion lles, Gwasanaeth Ieuenctid, a'r Heddlu, i allu dod â staff a dysgwyr at ei gilydd i ymateb i unrhyw dueddiadau o ran bwlio a'r angen i ddarparu hyfforddiant.

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?**

Ein bwriad yw sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau o'n hysgolion, waeth beth bynnag eu nodweddion

gwarchodedig a'u hanghenion. Wrth wella cydraddoldeb o fewn addysg byddwn yn datblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pob disgybl sy'n gysylltiedig ag ysgolion Gwynedd yn teimlo'n falch o'u hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol. Bydd cyflawniad disgyblion yn cael ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data i gefnogi'r disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hwyluso a chefnogi ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yng Ngwynedd credwn fod amrywiaeth yn gryfder, a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb o fewn a thu allan i'r ysgolion.

## Gwybodaeth Bellach

Mae hi'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i adrodd ar yr wybodaeth rydym yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb yn flynyddol.

**Monitro Manylion Cydraddoldeb Staff**

Oherwydd bod llenwi'r ffurflen yn ddewisol (yn unol â'r canllawiau) nid oes digon o aelodau staff wedi ei lenwi. Rydym wedi adnabod hyn, ac yn gweithio i annog mwy o weithwyr i wneud hynny (Amcan 1, Pwynt Gweithredu 1.8). Pan fydd gennym wybodaeth ddigonol byddwn yn gallu adnabod bylchau cyflog yn fwy eang nag ar sail rhyw yn unig (Pwynt Gweithredu 1.6), er mwyn gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu. Roedd 52.1% o'r gweithlu wedi cwblhau'r holiadur ar 31 Mawrth 2024, ychydig yn fwy na llynedd. Mae'r wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu i'w weld yn Gwybodaeth Cyflogaeth 2024-25

**Cwynion a phryderon**

Daeth 18 cwyn i sylw'r swyddogion cydraddoldeb oherwydd eu bod yn cynnwys honiadau o wahaniaethu, neu oherwydd rhyw gyswllt arall â materion cydraddoldeb. Ystyriwyd fod 7 o'r rhain yn ddilys (5 yn anffurfiol a 2 yn ffurfiol). Roedd y rhan fwyaf (5 ohonynt) yn ymwneud â materion anabledd – mynediad ar lan y môr, ymddygiad swyddog ar draeth, mynediad i adeilad, offer i blant anabl mewn cae chwarae a biniau ddim yn cael eu dychwelyd yn iawn. Roedd materion anabledd yn codi ymysg y cwynion ystyriwyd yn annilys hefyd – llinellau melyn ac addasiadau cyfathrebu. Byddwn yn bwydo'r wybodaeth yma i'r gwaith fyddwn ni'n wneud ar fynediad yn Amcan 3.

Pynciau gweddill y cwynion dilys oedd graffiti hiliol a biniau. Roedd y rhai annilys yn cwmpasu 2 honiad o hiliaeth oherwydd cenedligrwydd am faterion cyllidol, anfodlonrwydd fod linc am Balchder wedi ei rannu oherwydd ei fod yn sôn am addysg, honiad o wahaniaethu ar sail crefydd (Paganiaeth), ymddygiad swyddog, archwiliad diogelwch bwyd yn achosi pryder, honiad fod rhai o lyfrau'r llyfrgell yn anaddas i blant, honiad o wahaniaethu o ran rhyw fel tad.

**Ymgysylltu**

Mae casglu gwybodaeth, yn enwedig drwy ymgysylltu, yn amcan pwysig iawn o fewn y Cynllun Cydraddoldeb . Rydym eisiau sicrhau fod digon o wybodaeth ar gael yn hawdd i swyddogion pan yn gwneud asesiadau effaith, er mwyn sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i 3 nod y ddyletswydd gyffredinol a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Rydym hefyd eisiau sicrhau fod defnydd da yn cael ei wneud o'r wybodaeth a gesglir, felly mae'r gwaith ymgysylltu wnaethom ni ei wneud rhwng 2023 a 2024 wedi bwydo i mewn a llywio y cynllun presennol, gyda dros 600 o bobl yn cymryd rhan. Rydym ni'n parhau i gydweithio hefo Grŵp Craidd Cydraddoldeb y Cyngor yn aml trwy gydol y flwyddyn i gasglu ei barn am nifer o bynciau gwahanol. Yn ychwanegol, yn y flwyddyn weithredu bresennol, rydym ni hefyd wedi dechrau ymgysylltu yn gyson gyda staff y Cyngor, drwy gyfrwng y fforwm staff. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fforwm hwn drwy weddill cyfnod y Cynllun.

**Data Meintiol**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol yn cynnwys amcan penodol ar ddata meintiol. Y bwriad yw symud ymlaen i greu dashfwrdd ar lefel lleol ar gyfer Gwynedd i allu adeiladu a datblygu ein cynlluniau. Bydd y data yma ar gael ar gyfer staff hefyd i'w ddefnyddio ar gyfer asesiadau effaith, ffurfio polisïau a gwella gwasanaethau. Rydym wedi cynnwys yr Amcan yma gan ein bod yn adnabod pa mor bwysig ydi cael data addas ar gyfer gwella gwasanaethau fel hyn.

Rydym eisoes yn casglu gwybodaeth am wahaniaethau tâl yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig ac yn ei gyhoeddi'n flynyddol, gweler yr atodiad. Rydym hefyd yn gwneud awdit ar fwlch tâl ar sail rhyw bob tair blynedd. Fel rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru rydym wedi comisiynu'r ddogfen "Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth" gan ein Gwasanaeth Data a Gwybodaeth, sydd wedi dod a gwybodaeth eang at ei gilydd i allu ffurfio'r Cynllun presennol ac i rhoi dealltwriaeth gwell i ni o gydraddoldeb yng Ngogledd Cymru. Ein bwriad yw defnyddio'r ddogfen yma fel sail i'r dashfwrdd (gweler uchod).